Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar Wybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ac yn galluogi'r plant i archwilio gwahanol fathau o fwydydd, yn cynnwys arsylwi a phrofi sut mae bwydydd yn newid wrth goginio, toddi, cymysgu a rhewi. Gan adeiladu ar y pwyntiau dechrau cychwynnol yn ystod y

Cam Ymgysylltu, bydd eich arsylwadau yn eich galluogi i ddatblygu'r prosiect yn hyblyg gan gymryd

i ystyriaeth syniadau a diddordebau eich plant.

Yn ystod y Cam Arloesi dylid annog y plant i feddwl yn greadigol gan gymhwyso eu profiadau blaenorol, eu sgiliau a'u dealltwriaeth i gynllunio a gwneud bwydlen o brydau bwyd ar gyfer picnic

y tair arth.

Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu am:

- Gwahanol fathau o fwydydd
- Hoff a chas fwydydd
- Y synhwyrau o arogleuo a blasu
- Cadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys
- Mesurau ac arian trwy gyd-destunau chwarae
- Bwydydd o wahanol wledydd
- Prosesau coginio, toddi, rhewi a chymysgu
- Mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio ystod o gyfryngau gwahanol
- Yr iaith Gymraeg gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion dros ystod o brofiadau yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored.